Cwestiynau cyffredin

Beth yw'r Dull newydd o gynllunio a llwybro ceblau trawsyrru trydan newydd?

Dros y deng mlynedd nesaf, bydd y Deyrnas Unedig yn amnewid hen orsafoedd ynni gyda ffynonellau ynni newydd, boed yn ynni niwclear, gwynt a ffynonellau adnewyddadwy eraill, nwy neu lo glân. Bydd angen cysylltu'r ffynonellau ynni newydd â'r rhwydwaith trawsyrru trydan foltedd uchel. Mae'r Dull hwn yn esbonio sut a phryd y byddwn yn pennu'r angen i osod seilwaith trawsyrru newydd, gwerthuso technolegau a llwybrau, ac ymgynghori pan fyddwn yn ystyried gosod ceblau newydd.

Pam mae angen y Dull newydd hwn?

Gan fod angen cynhyrchu trydan newydd a glân ar gyfer y genedl, mae angen ailadeiladu ein seilwaith ynni. Mae'r National Grid yn buddsoddi'n helaeth yn rhwydwaith trawsyrru trydan y DU fel bod digon o gyflenwad ynni ar gyfer y dyfodol ac er mwyn helpu i gyflawni amcanion newid hinsawdd y DU. Yn ogystal â chryfhau'r ceblau trawsyrru sydd ar gael eisoes, bydd angen i ni hefyd greu cryn dipyn o lwybrau trawsyrru newydd i gysylltu ffynonellau newydd o ynni carbon isel, fel niwclear a gwynt.

Mae'n bwysig fod holl randdeiliaid ein prosiectau yn deall sut rydym yn gweithio, pryd a sut y byddwn ni'n ymgynghori â nhw, a beth yr ydym yn ystyried wrth baratoi ein cynigion.

Pam mae hyn wedi ymestyn y tu hwnt i'r Dull o osod ceblau dan ddaear?

Wrth dderbyn ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Dull drafft o osod ceblau dan ddaear, roedd hi'n amlwg bod angen i ni ehangu'r dull o lwybro'r holl geblau trawsyrru trydan foltedd uchel newydd boed rheiny'n geblau dan ddaear, ceblau uwchben, neu rai tanfor.

Beth oedd ymateb y cyhoedd i'r ymgynghoriad drafft ar osod ceblau dan ddaear?

Cawsom lawer iawn o ymatebion, yn enwedig gan ymgynghoreion statudol, grwpiau â buddiant ac aelodau'r cyhoedd sy'n byw mewn ardaloedd lle mae prosiectau seilwaith mawr yn cael eu cyflwyno.

Dyma'r prif negeseuon a ddaeth i law:

- Dylai'r Dull ganolbwyntio ar ddatblygu a nodi llwybrau seilwaith trydan yn gyffredinol, yn hytrach na gosod ceblau o dan ddaear yn unig.
- Ni ddylid cynnig gosod gwifrau uwchben fel dewis diofyn gan nad yw hyn yn dderbyniol i gymunedau lleol.
- Dylid ystyried pob prosiect fesul achos
- Dylid diogelu tirweddau pwysig hyd ag y bo modd, waeth a oes ganddynt ddynodiad penodedig neu beidio
- Ni ddylid rhoi gormod o bwyslais ar gost wrth ystyried llwybrau ceblau trydan newydd
- Dylai'r Dull nodi sut a phryd y dylid ymgynghori â chymunedau, fel eu bod yn teimlo ein bod yn ystyried eu pryderon yn ddigon cynnar i lywio'r broses benderfyniadau.

Gallwch weld copi llawn o'r Adroddiad Ymgynghori yn: www.nationalgrid.com/undergrounding.

Sut mae'r Dull newydd hwn yn wahanol i'r ffordd y mae'r National Grid yn datblygu ceblau trydan newydd ar hyn o bryd?

Mae'r Dull newydd yn crynhoi'r prosesau a ddatblygwyd gennym wrth ymateb i Ddeddf Cynllunio 2008 a'r adborth a gawsom i'n prosiectau dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Yn ogystal â chyhoeddi'r ddogfen hon, rydym hefyd yn ymrwymo i roi rhagor o bwyslais ar leihau effaith weledol y ceblau newydd yn ein ceisiadau cynllunio. Trwy wneud hyn, rydym yn cydnabod bod angen cydbwyso hyn â'r angen i sicrhau biliau trydan rhatach. Mae hyn yn gyson â pholisi'r Llywodraeth, a gyflwynwyd yn ddiweddar mewn Datganiadau Polisi Cenedlaethol.

Ydy hyn yn golygu y bydd y National Grid yn gosod mwy o geblau trydan newydd o dan ddaear?

Nid oes gennym hoff ddewis penodol o ran gosod ceblau dan ddaear neu rai uwchben ar gyfer unrhyw un o'n prosiectau. Ein dull bob amser yw gweithio gyda'n holl randdeiliaid a chymunedau lleol i daro'r cydbwysedd cywir rhwng cadw costau cyn ised â phosibl i ddefnyddwyr a lleihau effaith weledol y ceblau newydd hyn. Mae sawl ffordd wahanol o leihau'r effaith weledol gan gynnwys llwybro ceblau mewn modd sensitif, sgrinio, defnyddio cynlluniau peilonau gwahanol, datgymalu'r seilwaith cyfredol a gosod ceblau dan ddaear. Byddwn yn asesu hyn fesul achos er mwyn sicrhau ein bod yn deall ac yn ystyried yr holl ystyriaethau lleol yn llawn.

O dan ba amgylchiadau y bydd y National Grid bellach yn gosod ceblau trydan newydd dan ddaear?

Byddwn yn ystyried pob prosiect fesul achos, ond mae'r enghreifftiau lle gellir ystyried gosod ceblau dan ddaear yn cynnwys:

- lleoliadau ag anawsterau ffisegol o ran gosod gwifrau uwchben, megis mewn ardaloedd trefol,
- croesfannau afonydd neu forydau llydan, neu
- tirweddau gwerth uchel megis Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), ond a allai hefyd gynnwys tirweddau sensitif a golygfeydd eiconig neu ardaloedd lle mai gosod ceblau tanddaearol yn unig fyddai'n lliniaru effeithiau posibl eraill.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol a chaiff pob prosiect ei ystyried fesul achos ar ôl ymgynghori ag amrywiaeth eang o randdeiliaid.

Pam na aiff y National Grid ati i roi pob cebl trydan foltedd uchel dan ddaear nawr?

Mae'n rhaid i ni barhau i ystyried yr angen i daro'r cydbwysedd cywir rhwng lleihau'r effeithiau gweledol a lleihau costau i ddefnyddwyr.

Byddwn yn defnyddio'r broses sydd yn ein dogfen Dull newydd i adolygu holl brosiectau fesul achos er mwyn penderfynu ar y llwybrau a'r technolegau mwyaf priodol ac addas. Byddwn yn edrych ar bob ffactor, gan gynnwys amwynder gweledol, yr amgylchedd, yr effeithiau ar bobl leol, materion technegol a chostau, wrth werthuso'r llwybrau a'r technolegau posibl i'w defnyddio.

Ydy gosod ceblau o dan ddaear yn fwy cost-effeithiol na'r dewisiadau arall dros oes gyfan y ceblau, fel y mae rhai pobl wedi awgrymu?

Rydym yn ystyried y costau cyfalaf a'r costau oes gyfan yn ein proses gwerthuso dewisiadau. Yn ein profiad ni, fodd bynnag, ychydig iawn o wahaniaeth y mae ystyried costau oes gyfan yn ei wneud yn gyffredinol o ran economeg gan fod y costau cyfalaf a'r technolegau'n amrywio'n fawr iawn.

Rydym yn croesawu'r ffaith fod Parsons Brinckerhoff wedi'u penodi i gynnal astudiaeth annibynnol o gostau cymharol cylchedau ynni foltedd uchel uwchben ac o dan y ddaear. Byddwn yn parhau i gydweithredu'n llawn er mwyn cael astudiaeth lwyddiannus. Unwaith y bydd yn barod, byddwn yn defnyddio'r adroddiad hwn fel pwynt cyfeirio awdurdodol ac annibynnol i gefnogi proses benderfyniadau ein prosiectau.

Sut y byddwn yn ystyried yr adroddiad annibynnol arfaethedig ar gostau gosod ceblau dan ddaear, nawr bod y Dull newydd wedi'i gyhoeddi?

Byddem wedi hoffi gweld manylion y dadansoddiad terfynol o gostau cymharol cyn datblygu ein Dull ymhellach. Er hynny, ar ôl lansio ein hymgynghoriad ar osod ceblau dan ddaear fis Rhagfyr diwethaf, roedd angen egluro ein dull o gynllunio a llwybro'r ceblau trawsyrru trydan newydd yn well i bawb a oedd yn gysylltiedig â'n prif brosiectau seilwaith. Unwaith y bydd y dadansoddiad o'r costau cymharol wedi'i gyhoeddi erbyn diwedd eleni, byddwn yn ystyried y canfyddiadau ac yn adolygu ein cynigion ar gyfer prosiectau seilwaith mawr fel bo'r angen.

Sut fydd y Dull newydd hwn yn llywio'r prosiectau seilwaith mawr sydd eisoes ar waith?

Mae dogfen ein Dull newydd yn cyflwyno'r broses y byddwn yn ei ddefnyddio i ddatblygu'r prosiectau hyn: y camau ymgynghori; y bobl a'r sefydliadau y byddwn yn ymgynghori â nhw, a sut fyddwn ni'n gwerthuso a chreu rhestr fer o'r dewisiadau. Fel rhan o'r broses hon, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid a chymunedau i weld beth yw'r ffordd orau o leihau'r effeithiau gweledol, gan gynnwys nodi unrhyw ardaloedd lle dylid gosod ceblau newydd o dan ddaear.

Medi 2011